Ysgol Penrhyn-coch

Cyn y gwyliau cawsom y cyfle i ddymuno'n dda i Mrs G.Randall yn ei swydd newydd ac i gyflwyno rhodd fechan iddi ar ran y staff a'r plant. Diolchodd pob aelod o'r staff iddi am ei llafur a'i charedigrwydd tra bu yma'n ein plith a chyflwynwyd yr anrheg iddi gan Mr I.E.Jones. Mewn geiriau dethol diolchodd hithau i bawb am bob caredigrwydd.

Croesawn Clare Pearce o Gwmcarn, Gwent a Sally a Kathryn Williams o Rydlewis i'n plith.

Y Llun cyntaf o'r mis daeth Mrs Megan J.Evans o Benparcau i sgwrsio ag aelodau'r Urdd a chafwyd awr ddiddorol yn ei chwmni. Trwy gyfrwng llieiniau sychu llestri ymwelwyd â nifer o wledydd ac yr oedd y plant wrth eu bodd yn gweld rhan o gasgliad mawr Mrs Evans.

Mae nifer o'r plant yn absennol oherwydd salwch y dyddiau hyn ond mawr hyderir y gwelir hwy'n ôl yn yr ysgol yn fuan. Ar hyn o bryd 'rydym yn brysur yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth o Lithiau a Charolau a gynhelir gan y plant yn Eglwys Sant Ioan ar Nos Iau y 18fed o Ragfyr.